ico.
Information Commissioner's Office

# Canllaw – ffurflen rhoi gwybod am drosedd

Ar ôl ichi ddarllen ein canllawiau os oes arnoch angen cymorth o hyd i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'n llinell gymorth ar 0303 123 1113 (ar waith 9am i 5pm dydd Llun i ddydd Gwener).

## Am eich adroddiad chi

Atebwch y cwestiynau a ganlyn, i'n helpu i ymdrin â'ch adroddiad yn effeithlon a deall ein cwsmeriaid yn well.

Os ydych chi wedi siarad eisoes ag aelod o staff yr ICO am y trosedd hwn, rhowch eu henw.

Mae hyn yn ein helpu i nodi pa aelod o staff a allai fod yn gyfarwydd â'ch digwyddiad penodol chi eisoes. Rhowch yr enw llawn.

### Y math o adroddiad

Manylwch yma ai dyma'r tro cyntaf ichi roi gwybod i'r ICO am y trosedd ac os felly a ydych chi'n cyflwyno adroddiad sydd wedi'i gwblhau neu a fyddwch yn anfon gwybodaeth ychwanegol.  Yn yr un modd, os ydych yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag adroddiad sy'n bodoli eisoes, dywedwch a ydy hwnnw'n adroddiad sydd wedi'i gwblhau neu a fydd gwybodaeth ychwanegol yn dilyn. Pan fydd yr adroddiad am y trosedd wedi'i gofnodi ar ein system, cewch neges ebost o gydnabyddiaeth yn rhoi manylion cyfeirnod yr achos. Os ydych yn darparu adroddiad dilynol, cofiwch gynnwys y cyfeirnod hwn gan ei fod yn ein galluogi i gysylltu'ch gwybodaeth ychwanegol â'r achos presennol sydd gennym ar eich cyfer.

Os ydych yn darparu gwybodaeth gyfyngedig yn unig yn eich adroddiad cychwynnol, gofalwch ddarparu adroddiad dilynol yn brydlon.

### Y rheswm am yr adroddiad – ar ôl ichi edrych ar y canllawiau

Ar ôl asesu'r canllawiau priodol, gan gynnwys cwblhau'r offeryn hunan-asesu ar ein gwefan, rhowch y rheswm am yr adroddiad.

### Rwyf o’r farn bod y digwyddiad yn cyrraedd y trothwy ar gyfer rhoi gwybod

Rydych chi wedi asesu'r trosedd ac rydych o’r farn bod yna risg o niwed i’r testunau data ac felly yn rhoi gwybod i'r ICO yn y modd priodol.

### Dwy ddim o’r farn bod y digwyddiad yn cyrraedd y trothwy ar gyfer rhoi gwybod, ond rwyf am ichi fod yn ymwybodol ohono

Sylwch mai dim ond troseddau sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer rhoi gwybod a ddylai gael eu hysbysu i'r ICO. Does dim rhwymedigaeth i roi gwybod i'r ICO am ddigwyddiadau lle mae’r risg yn debygol o fod yn isel. Er hynny, mewn achosion o'r fath, mae disgwyl ichi gofnodi’r trosedd yn fewnol. Dylai hyn gynnwys y ffeithiau, yr effeithiau, y mesurau cyfyngu a'r mesurau adfer a roddwyd ar waith yn sgil y trosedd.

### Dwy ddim yn glir a yw’r digwyddiad yn cyrraedd y trothwy ar gyfer rhoi gwybod ai peidio

Os dyma’r tro cyntaf ichi roi gwybod am drosedd i'r ICO neu os oes arnoch angen cymorth ychwanegol o ran digwyddiad penodol, cysylltwch â'n llinell gymorth ar 0303 123 1113 (ar waith 9am i 5pm dydd Llun i ddydd Gwener) lle gallwch drafod y trosedd gydag aelod o staff ac, os yw'n briodol, cyflwyno'r adroddiad dros y ffôn.

### Maint y Sefydliad

Dywedwch a ydych yn sefydliad sydd â llai na 250 o staff ynteu 250 a rhagor o staff.

### Ai dyma'r tro cyntaf ichi gysylltu â ni am drosedd ers i'r GDPR ddod i rym?

Wrth ystyried y cwestiwn hwn, ystyriwch nid yn unig gysylltu â'r ICO i roi gwybod am drosedd ond hefyd os ydych chi wedi gofyn inni am gyngor ynghylch trosedd.

## Ynglŷn â’r trosedd

Atebwch y cwestiynau hyn mor drylwyr ag y bo modd er mwyn sicrhau bod gan staff yr ICO sy'n asesu'r trosedd ddigon o wybodaeth i gael dealltwriaeth lawn o'r digwyddiad dan sylw. Peidiwch â defnyddio acronymau neu jargon mewnol i sicrhau bod y cynnwys yn glir i unigolion nad ydynt o bosibl yn gyfarwydd â'r systemau etc sy’n cael eu defnyddio

yn eich sefydliad chi. Sylwch nad yw'r enghreifftiau yn y canllaw hwn yn gynhwysfawr ac mai fel canllaw y dylech eu cymryd.

### Disgrifiwch beth ddigwyddodd

Rhowch grynodeb o'r digwyddiad. Dylai'r trosolwg cychwynnol hwn alluogi'r ICO i gael dealltwriaeth gyffredinol o natur y trosedd.

### Disgrifiwch sut digwyddodd y digwyddiad

Beth sydd wrth wraidd y trosedd? Er enghraifft, a allai fod wedi deillio o wall dynol, methiant mewn system neu efallai methiant i gydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol sydd eisoes yn eu lle.

### Sut canfyddodd y sefydliad y trosedd?

Er enghraifft, ai derbynnydd anghywir/aelod o'r cyhoedd a roddodd wybod i'r sefydliad? Wnaeth yr aelod staff sylweddoli'r camgymeriad a allai fod wedi'i wneud? Sut cafodd eich sylw ei dynnu ato?

### Pa fesurau ataliol a oedd gennych ar waith?

Er enghraifft, polisïau a gweithdrefnau clir, rhestr wirio neu efallai ffurfweddiad system o ryw ddisgrifiad i helpu i atal achosion o droseddau o'r math hwn.

### A gafodd y trosedd ei achosi gan ddigwyddiad seiber?

Er enghraifft, gafodd y trosedd ei achosi gan feddalwedd wystlo neu ymosodiad gwe-rwydo.

### Pryd digwyddodd y trosedd?

Gan ddibynnu ar natur y trosedd, gall fod yn anodd nodi'r union amser a dyddiad y digwyddodd. Os felly cewch roi amcangyfrif bras.

### Pryd cafodd y trosedd ei ganfod?

Sylwch mai pryd y daeth y sefydliad yn weddol ymwybodol yw hyn, sy'n gallu bod yn wahanol i pryd y daeth y sawl sy'n rhoi gwybod yn ymwybodol o'r trosedd.

### Categorïau o ddata personol sydd dan sylw yn y trosedd

Ystyriwch natur y data personol y mae'r trosedd wedi effeithio arno a chofnodwch hyn yn yr adran hon. Sylwch fod cyfeiriadau testunau data yn

cael eu cyfrif fel 'dynodwyr personol sylfaenol' a bod cyfesurynnau'n cael eu cyfrif fel 'data lleoliad'. Rhowch fanylion ychwanegol i helpu'r ICO i asesu'r data yn ei gyd-destun. Er enghraifft, gall data iechyd amrywio o ddata eithaf sensitif i ddata hynod sensitif.

### Nifer y cofnodion data personol o dan sylw?

Gallai cofnod unigol fod yn ffurflen/rhestr, llyfr nodiadau neu ddyfais electronig sydd ar goll. Ar y llaw arall, gallai neges ebost fod wedi'i hanfon at 20 o unigolion, ac felly byddai hyn yn cael ei chyfrif fel 20 o gofnodion. Wrth asesu nifer y cofnodion data, ystyriwch natur y digwyddiad a faint o gofnodion y gallai trydydd parti eu cyrchu. Mewn rhai achosion gallai hyn olygu copi dyblyg o'r un cofnod (e.e. neges ebost).

### Faint o destunau data y gallai hyn effeithio arnynt?

Mae hyn yn ymwneud â thestunau data y mae’r trosedd wedi effeithio ar eu data personol: nid yw'n cynnwys, er enghraifft, pobl sydd wedi derbyn data unigolyn arall yn anghywir.

### (Digwyddiadau seiber yn unig) Os nad yw nifer y testunau data yr effeithir arnyn nhw yn hysbys, amcangyfrifwch y nifer uchaf posibl y gallai hyn effeithio arnyn nhw/cyfanswm y cwsmeriaid

Adeg eich adroddiad, efallai na fyddwch yn gwybod faint o destunau data y mae’r trosedd wedi effeithio arnyn nhw. Felly, dylech chi nodi'r uchafswm y gallai hyn effeithio arnyn nhw. Os gallai hyn effeithio ar bob un o’ch cwsmeriaid, dylech nodi faint o gwsmeriaid sydd gennych.

### Categorïau o destunau data yr effeithiwyd arnynt?

Ticiwch bob un sy’n gymwys. Os nad yw categori wedi'i restru, rhowch fanylion ychwanegol yn yr adran yn uniongyrchol o dan 'arall'.

### Disgrifiwch unrhyw niwed i unigolion sydd wedi codi hyd yn hyn, neu unrhyw niwed rydych chi’n rhag-weld y gallai godi yn y dyfodol

Disgrifiwch yr effaith bosibl ar y testunau data, yn sgil y trosedd adeg cyflwyno’r adroddiad a/neu unrhyw effaith ar y testunau data a allai ddigwydd yn nes ymlaen. Dywedwch a oes testunau data wedi cael niwed gwirioneddol.

Er enghraifft, oes yna risg bosibl o ddwyn hunaniaeth?

### Ydy’r trosedd data personol yn debygol o arwain at risg uchel i destunau data?

Rhowch fanylion eich asesiad cyffredinol o'r risg mewn perthynas â'ch hysbysiad torri rheolau.

### A gafodd yr aelod staff a fu’n rhan o’r digwyddiad hwn hyfforddiant diogelu data yn ystod y ddwy flynedd diwethaf?

### Disgrifiwch yr hyfforddiant diogelu data rydych chi’n ei ddarparu, gan gynnwys amlinelliad o gynnwys ac amlder yr hyfforddiant

Rhowch ddisgrifiad byr: dydyn ni ddim yn gofyn ichi anfon copi o'ch deunyddiau hyfforddi aton ni. Er enghraifft, gallai’ch hyfforddiant gynnwys e-ddysgu ar-lein neu hyfforddiant wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth.

### Os oes oedi wedi bod cyn rhoi gwybod am y trosedd hwn, esboniwch pam

Pam na chafodd yr adroddiad ei gyflwyno o fewn yr amserlen 72 awr. Rhowch eich rhesymeg y tu ôl i'r gohirio hwn.

## Cymryd camau

### Ydych chi wedi cymryd camau i gyfyngu'r trosedd neu i gyfyngu ei effaith? Disgrifiwch y camau adfer hyn

Gallai hyn gynnwys ymdrechion llwyddiannus i adfer yr wybodaeth neu gadarnhad y gallech fod wedi'i gael gan dderbynwyr anghywir fod y data wedi'i ddileu/wedi’i ddinistrio ac na fydd yn cael ei drosglwyddo ymhellach. Fel arall, os oes dyfais electronig wedi ei cholli/wedi ei dwyn, cadarnhad bod y cynnwys wedi'i ddileu er mwyn atal unigolion heb awdurdod rhag ei weld.

### Amlinellwch unrhyw gamau rydych chi’n eu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto, a pha bryd rydych chi’n disgwyl y byddan nhw wedi'u cwblhau

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr hyn rydych chi’n ei wneud i ddysgu o'r digwyddiad ac atal rhywbeth tebyg rhag digwydd eto. Dylai fod gennych chi amserlen ar gyfer pob cam rydych chi’n bwriadu ei gymryd.

### Disgrifiwch unrhyw gamau eraill rydych chi wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, o ganlyniad i'r trosedd

Mae'r adran hon ar gyfer unrhyw fanylion rydych chi heb eu cynnwys yn barod.

### Ydych chi wedi dweud wrth y testunau data am y trosedd?

Cymerwch y camau mwyaf priodol ar gyfer eich sefyllfa chi ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd i hysbysu'r ICO a ydych wedi rhoi gwybod i'r testunau data yr effeithiwyd arnynt.

### Ydych chi wedi dweud, neu'n bwriadu dweud, wrth unrhyw sefydliadau eraill am y trosedd?

Er enghraifft yr Heddlu, rheoleiddwyr neu awdurdodau goruchwylio eraill. Ystyriwch unrhyw sefydliadau eraill y gall fod angen eu hysbysu.

### Ydych chi'n aelod o gynllun Cod Ymarfer GDPR y Deyrnas Unedig neu gynllun Ardystio, fel y maen nhw wedi'u cymeradwyo ac wedi'u cyhoeddi ar wefan yr ICO?

### Rhowch gadarnhad o enw'r Cynllun/Cod

Dylech ddweud wrthon ni os ydych chi'n aelod o gynllun Cod Ymddygiad neu Gynllun Ardystio GDPR y Deyrnas Unedig. Mae'r holl Godau a Chynlluniau wedi'u rhestru ar wefan yr ICO.

### Ydy gofynion y Cod neu'r Cynllun yn berthnasol i'r trosedd sydd wedi digwydd?

Er enghraifft, ydy'r Cod neu'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol ichi gael mesurau penodol ar waith i ddiogelu data personol o'r math sy'n gysylltiedig â'r trosedd hwn?

### Ydych chi wedi rhoi gwybod i'r Corff Monitro neu'r Corff Ardystio perthnasol?

Efallai y byddwn yn gofyn ichi roi gwybod i'r Corff Monitro neu'r Corff Ardystio perthnasol, os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn barod.

### Gwefannau amheus

Hefyd os yw'r trosedd yn ymwneud â gwefan amheus, ystyriwch y gallwch chi roi gwybod i'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC). Drwy roi gwybod, gallwch helpu i atal seiberdroseddwyr a diogelu eraill ar-lein.

Fydd yr ICO ddim yn gweld manylion eich adroddiad i'r NCSC, felly dylech sicrhau eich bod yn dweud popeth wrthon ni y mae angen inni ei wybod ar y ffurflen hon.

Rhoi gwybod am wefan amheus - NCSC.GOV.UK

## Amdanoch chi

### Enw'r sefydliad

Rhowch fanylion enw'ch cwmni lle mae'n dweud 'Enw'r sefydliad (rheolwr data)'. Nid yw hyn yn golygu'r unigolyn penodol sydd wedi llenwi'r adroddiad. Yn hytrach, rhaid darparu manylion cyswllt y sawl sy'n llenwi'r adroddiad yn yr adran 'Y person sy'n llenwi'r adroddiad hwn'.

### Rhif cofrestru

Rhowch eich Rhif Cofrestru ICO. Os ydych yn esempt, rhowch D/G yn yr adran hon.

### Os nad ydych wedi cofrestru, rhowch y rheswm dros eich esemptiad

Manylwch ar y rheswm/rhesymau posibl eich bod yn esempt rhag talu'r ffi gofrestru. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'ch statws, rhowch gynnig ar ein hofferyn hunanasesu ar-lein.

### Sector busnes

Esboniwch i ba ddiwydiant y mae'ch sefydliad yn perthyn.

### Cyfeiriad y sefydliad cofrestredig

Rhowch eich cyfeiriad masnachu.

### Y person sy'n llenwi'r adroddiad hwn

Sylwch y bydd unrhyw ohebiaeth a fydd yn cael ei hanfon yn y dyfodol ynghylch eich achos (os ydych yn llenwi adroddiad ar-lein) yn cael ei hanfon i gyfeiriad ebost y person sy'n llenwi'r ffurflen wreiddiol. Gall hyn gynnwys ceisiadau am ragor o wybodaeth os byddwn yn teimlo bod hynny'n briodol. Gofalwch fod yr aelod staff yn eich sefydliad sy'n rhoi gwybod am y trosedd yn briodol i ddelio â'r cais hwn (ac yn gallu cydgysylltu ag unigolion/meysydd busnes eraill os oes angen).